

SIR GAERFYRDDIN


Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GŶR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



MEDI- HYDREF 2020

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?



I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



Ffrwyth derw

'Mast' yw'r term Saesneg a ddefnyddir i ddisgrifio ffrwyth coedwigoedd fel mes a hadau ffawydd. Blwyddyn doreithiog yw pan fydd y coed sy'n cynhyrchu'r ffrwythau hyn yn tyfu cnydau sylweddol ac yn cynhyrchu llawer mwy o ffrwythau nag y byddent fel arfer.

Mae nifer y ffrwythau y mae coed fel derw a ffawydd yn eu cynhyrchu yn amrywio'n aruthrol bob blwyddyn - mewn rhai blynyddoedd ni fydd unrhyw ffrwythau i'w gweld ac mewn blynyddoedd eraill, bydd ganddynt gnwd eithriadol. Mae llawer o anifeiliaid gan gynnwys mamaliaid ac adar yn bwydo ar y ffrwyth coetir hwn.



Pryfed dail

Mae llawer o rywogaethau o bryfed dail yn y DU. Mae oedolion fel arfer yn bryfed bach, lliw tywyll tua 5mm o hyd. Mae'r pryfed yn dodwy wyau ar y ddeilen neu y tu mewn iddi ac mae'r larfau'n bwydo ar feinwe'r ddeilen rhwng y ddau arwyneb. I ddechrau, mae'r larfau sy'n deor yn gweithio gyda'i gilydd i greu coridor llydan. Yn ddiweddarach maent yn gwahanu, gan greu blotiau mawr sy'n aml yn cael eu chwyddo hyd yn oed yn fwy trwy ymuno â choridorau eraill. Mae'r larfau'n chwileru y tu allan i'r ddeilen, lle byddant yn trawsnewid yn bryfed.



© Ann Collier

Piod

Cafodd y llun anhygoel hwn ei dynnu yng ngwarchodfa Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd. Mae pioden yn ymosod ar neidr y gwair. Mae hon yn olygfa anarferol, bydd piod yn ymosod ar nadroedd y gwair os ydynt yn eu gweld, ond nid ydynt yn ysglyfaethwyr arbenigol arnynt (er y gallent fwyta rhai bach yn achlysurol) ond maent yn bwyta madfallod ar brydiau. Pan gânt eu dal, mae nadroedd y gwair yn hisian ac yn gollwng sylwedd drevllyd o'u chwarrren refrol - ond nid yw hynny wedi cael effaith ar y bioden hon.



Rhisgl

Mae'r rhisgl yn orchudd amddiffynnol sy'n lapio'n dynn o amgylch coeden. Dan y rhisgl mae'r gwythiennau bregus yn cludo bwyd a dŵr trwy'r boncyff i'r gwreiddiau a'r dail.

Edrychwch ar y coed o'ch cwmpas - sylwch ar sut mae rhisgl gwahanol goed â lliwiau, gweadau a phatrymau unigol. Mae craciau, lymphiau a chreithiau'r rhisgl yn gartref i fyd o fywyd gwyllt pitw bach sy'n sgrialu ac yn tyllu. Gall rhisgl fod mor denau â phapur ac, fel hen goed coch anferth, mor drwchus â wal y tŷ!

- Mae rhisgl yn ein helpu ni hefyd - daw prif gynhwysyn aspirin o risgl coed helyg.
- Mae tannin o risgl wedi cael ei ddefnyddio i drin crwyn anifeiliaid i gynhyrchu lledr ers cyfnod y Rhufeiniaid.
- Mae rhisgl wedi cael ei ddefnyddio i greu llieiniau, canwau, rhaffau, papur a mapiau.
- Pan fyddwch yn dathlu gyda gwydriad o siampên cofiwch fod y corc yn dod o risgl y dderwen gorc.



Gwahaddod

Mae gwahaddod yn rhywogaeth sy'n gallu addasu, ac wedi'u cofnodi mewn coetiroedd a glaswelltir. Maent yn byw ar eu pen eu hunain o dan y ddaear mewn rhwydwaith o dwneli ac yn bwydo ar anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn y pridd, yn enwedig mwydod. Mae'r gwrywod yn diriogaethol iawn.

Cafodd y wahadden hon a fu farw'n ddiweddar ei chanfod ar rostir corsio. Gallwch weld o'i chrafangau anhygoel sydd fel rhawiau nad yw cloddio twneli yn broblem. Hefyd, mae'r wisgers sensitif y gallwch eu gweld yma yn ei helpu i ddod o hyd i'w ffordd a dod o hyd i fwyd. Yn aml, dim ond oherwydd y twmpathau pridd a grëir gan y wahadden y gallwn eu gweld - fe'i gelwid yn 'moldewarp' (taflwr daear) yn ystod y canol oesoedd.



Gwe pry cop

Yn aml, gwelir gweoedd pry cop ar eu gorau yn yr hydref pan fydd gwlyth y bore a defnynnau o law yn arddangos eu harddwch. Mae pryfed cop yn defnyddio gweoedd i ddal eu cinio. Mae 'r lleoliad a ddewisir yn allweddol i'w llwyddiant. Mae rhai gweoedd yn cael eu hadeiladu ar draws llwybrau hedfan pryfed posibl. Mae rhywogaethau eraill o bryfed cop yn adeiladu gweoedd yn isel lle mae anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn debygol o fynd heibio. Gall gweoedd sy'n cael eu hadeiladu yn llorweddol ddal pryfed sy'n cwmpo oddi ar y planhigyn yr oeddent yn bwydo arno. Yma mae rhywogaeth o bry cop wedi adeiladu gwe gydag edau rheiddiol sy'n gweithio fel sgaffald. Mae'r pry cop yn gosod edau gludiog i greu siâp troellog.



Eirin Moch

Ffrwythau'r ddraenen wen yw eirin moch ac maent yn llawn gwrthocsidyddion. Maent yn cael eu mwynhau gan adar mudol, fel esgyll cochion, cesig a bronfreithod, yn ogystal â mamaliaid bach. Os oes gennych yr amynedd, gellir eu defnyddio i wneud jeli sy'n llawn fitamin C. Mae'r ddraenen wen yn blanhigyn perth cyffredin yn Sir Gaerfyrddin. Pan gafodd tir ei amgylchynu yn y 18fed ganrif, cafodd drain gwynion eu plannu yn eu miloedd yn y perthi wrth greu'r caeau.



Iorwg

Mae'n cael ei anwybyddu'n aml heddiw ond mae iorwg yn helpu llawer o'n bywyd gwylt lleol, yn enwedig yn ystod misoedd hir y gaeaf. Mae'n blodeuo yn gynnar yn yr hydref, ac mae neithdar yr iorwg yn ffynhonnell fwyd werthfawr i lawer o bryfed cyn y gaeaf, yn enwedig gwenyn a gloÿnnod byw, gan gynnwys y gwenyn iorwg sydd dim ond wedi'i gofnodi'n weddol ddiweddar yn y DU.

Yn ogystal, mae ei aeron duon yn darparu cyflenwad o fwyd hanfodol i lawer o adar yn ystod y gaeaf, pan fydd llai o fwyd ar gael iddynt. Mae iorwg trwchus yn darparu cuddfannau clyd i anifeiliaid, adar a phryfed amrywiol glwydo, gaeafgysgu a nythu yn ystod misoedd hir y gaeaf.



Draenogod

Mae trapiau camera wedi bodoli ers amser maith, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae mwy o ddewis ag ansawdd gwell ar gael - gan gynnig ffordd hawdd o gael cipolwg ar weithgaredd bywyd gwylt yn eich gardd yn ystod y nos. Yma mae pâr o ddraenogod yn darparu gwasanaeth rheoli plâu yn yr ardd hon trwy fwyta gwllithod. Gallwch hefyd weld coesau rhyfeddol o hir y draenog, sydd fel arfer yn cael eu cuddio o dan ei bigau. Roedd clip arall yn dangos gornest rhwng dau wryw blin a oedd yn taro eu pennau yn erbyn ei gilydd. Roedd y gwrywod hyn yn ymladd dros fenyw a oedd gerllaw mae'n rhaid.



© Val Roberts



Bwriwch olwg fanylach ar... ffyngau gwych

Mae ffyngau yn lliwgar, yn ddirgel, yn gymhleth, ac yn amrywiol. Ni fyddem yma hebddynt. Nawr yw'r amser perffaith i fynd mas i grwydro yn eich ardal leol - glaswelltiroedd, coetiroedd a thwyni tywod hyd yn oed. Peidiwch â phoeni am geisio eu henwi (mae miloedd o rywogaethau yn y DU) ond ewch ati i fwrw golwg agosach a dod o hyd i'r ystod o ffyngau o'n cwmpas. Dim ond pigyn y rhewfryn yw'r ffrwyth a welwn nawr. Mae'r myselia o dan y ddaear sy'n debyg i edau yn cysylltu â gwreiddiau gwahanol blanhigion gan rannu maetholion, dŵr a gwybodaeth hyd yn oed - mae ymchwil wedi dangos pan fydd ffyngau niweidiol yn ymosod ar blanhigion, maent yn rhyddhau signalau cemegol i'r myselia sy'n rhybuddio'r planhigion eraill.



Chwilen y dom mewn gardd ym Mhump-hewl
© Wayne Jones



Gwylan ifanc gyda seren fôr ym Mhorth Tywyn
© Wayne Jones



Glöyn gwyn cleisiog © Wayne Jones

Bywyd gwyllt Sir Gaerfyrddin

Cafodd y lluniau hyfryd hyn eu hanfon i fewnflwch y Nodiadau Natur. Maent yn dangos yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd wedi cael ei weld yn y sir yr haf hwn. Mae gennym ystod o gynefinoedd ac mae'r amrywiaeth o rywogaethau sydd gennym yn adlewyrchu hyn. Mae'r Nodiadau Natur yn gobeithio adlewyrchu hyn, ac mae lluniau'n helpu i adlewyrchu'r sir arbennig rydym yn byw ynddi.



Môr-wennol bigddu yn hedfan gyda physgodyn yn ei cheg © Wayne Jones



Partneriaeth Natur Sir Gâr

